OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 1432 (Cy.143)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## NEWIDIADAU I ARDALOEDD LLYWODRAETH LEOL

## Gorchymyn Pen-y-bont ar Ogwr (Cymunedau Cynffig, Corneli a'r Pîl) (Newidiadau Etholiadol) (Diwygio) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *29 Ebrill 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Mai 2002* |

Gan fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 58(2) a 67(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**), ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**), wedi gwneud Gorchymyn Pen-y-bont ar Ogwr (Cymunedau Cynffig, Corneli a'r Pîl) (Newidiadau Etholiadol) 2002;

mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn gwneud y Gorchymyn canlynol er mwyn gwneud newidiadau i ddarpariaethau penodol yn y gorchymyn blaenorol hwnnw ynglŷn â dyddiad dileu cymuned Cynffig a dyddiad cynnal etholiadau ar gyfer cynghorau cymuned newydd Corneli a'r Pîl.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pen-y-bont ar Ogwr (Cymunedau Cynffig, Corneli a'r Pîl) (Newidiadau Etholiadol) (Diwygio) 2002.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mai 2002.

### Diwygio Gorchymyn Pen-y-bont ar Ogwr (Cymunedau Cynffig, Corneli a'r Pîl) (Newidiadau Etholiadol) 2002

**2.**—(1) Diwygir Gorchymyn Pen-y-bont ar Ogwr (Cymunedau Cynffig, Corneli a'r Pîl) (Newidiadau Etholiadol) 2002 fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2, yn lle "2 Mai" rhowch "20 Mehefin".

(3) Ym mharagraff (1) o Erthygl 4, yn lle "6 Mai" rhowch "24 Mehefin".

(**1**) 1972 p.70.
(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

Llofnodwyd

*E. Hart*
Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

29 Ebrill 2002

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Gwnaed Gorchymyn Pen-y-bont ar Ogwr (Cymunedau Cynffig, Corneli a'r Pîl) (Newidiadau Etholiadol) 2002 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y 28 Mawrth 2002 er mwyn dileu cymuned Cynffig a chreu dwy gymuned newydd sef cymuned Corneli a chymuned y Pîl. Gwnaed y Gorchymyn hwnnw o dan adrannau 58(2) a 67(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n diwygio'r Gorchymyn hwnnw, yn cael ei wneud o dan yr un pwerau ac mae'n newid dyddiad dileu cymuned Cynffig o 2 Mai 2002 i 20 Mehefin 2002. Bydd yr etholiadau i'r ddau gyngor cymuned newydd sef cymuned Cynffig a chymuned y Pîl ar 20 Mehefin yn rhinwedd y Gorchymyn hwn. Bydd aelodau'r cynghorau newydd hynny yn ymgymryd â'u swyddi ar 24 Mehefin 2002.